# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

Adran Gwaith a Phensiynau

# Datganiad Pensiwn Cyfunol

## Eglurhad o'ch datganiad Pensiwn y Wladwriaeth

CPS5W 11/15

# Gwybodaeth Bwysig

Mae Pensiwn y Wladwriaeth yn newid. Mae'r Llywodraeth yn cyflwyno cynllun Pensiwn newydd y Wladwriaeth ar 6 Ebrill 2016.

Bydd dynion sydd wedi'u geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1951, neu ferched wedi'u geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1953, yn cael eu talu o dan reolau newydd Pensiwn y Wladwriaeth.

## Beth dylech ei ddarllen.

Os ydych yn **ddyn wedi'i eni ar neu cyn 5 Ebrill 1951**, neu yn **ferch wedi'i geni ar neu cyn 5 Ebrill 1953**, dylech **ddarllen Adrannau 1, 3, 4, 5** a **6** o'r daflen hon.

Os ydych wedi byw a gweithio yn Ynys Manaw yn flaenorol, darllenwch y wybodaeth bwysig ar **dudalen 27**.

# Cynnwys

**6 Adran 1 – Trosolwg o Bensiwn y Wladwriaeth**
**Dylai pawb ddarllen yr adran hon**

6 Beth yw Pensiwn y Wladwriaeth?

8 Sut ydw i'n cael Pensiwn y Wladwriaeth?

9 Beth yw blwyddyn gymhwyso?

9 Pam ydwyf yn gorfod talu cyfraniadau YG pan mae gennyf ddigon o flynyddoedd cymhwyso eisoes i gael Pensiwn y Wladwriaeth lawn?

10 Pryd gallaf gael fy Mhensiwn y Wladwriaeth?

10 Sut wyf yn cael fy Mhensiwn y Wladwriaeth?

11 Ydw i'n gorfod gwneud cais amdano yn syth?

**12 Adran 2 – Eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth.**
**Darllenwch yr adran hon os ydych yn ddyn wedi'i eni ar neu cyn 5 Ebrill 1951, neu ferch wedi'i geni ar neu cyn 5 Ebrill 1953**

**12 Eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth: Crynodeb**

**13 Eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth: Dadansoddiad**

13 Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth

14 Pensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth – Cyffredinol

15 Pensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth – beth os wyf yn rhan o bensiwn gwaith neu gynllun pensiwn personol?

16 Budd-dal Ymddeol Graddedig

**16 Pensiwn y Wladwriaeth trwy eich priod neu bartner sifil**

16 Os ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil

18 Os bydd eich gŵr, gwraig neu bartner sifil yn cyrraedd eu hoedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016

18 Os ydych yn weddw neu'n bartner sifil sydd wedi goroesi cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth

19 Os ydych yn weddw neu'n dod yn bartner sifil sy'n goroesi ar ôl i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ond cyn 6 Ebrill 2016

19 Os ydych yn weddw neu'n dod yn bartner sifil sy'n goroesi ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016

20 Os ydych wedi ysgaru neu mae eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth

20 Os ydych wedi ysgaru neu os yw eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu ar ôl i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ond cyn 6 Ebrill 2016

21 Os ydych wedi ysgaru neu mae eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016

**22 Gwella eich Pensiwn y Wladwriaeth trwy talu cyfraniadau Ywiriant Gwladol gwirfoddol**

22 Cyfraniadau YG Gwirfoddol Dosbarth 2 a 3

23 Ychwanegiad Pensiwn y Wladwriaeth

**25 Adran 3 – Eich Datganiad Pensiwn y Wladwriaeth**
**Darllenwch yr adran hon os ydych yn ddyn wedi'i eni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1951, neu ferch wedi'i geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1953**

**26 Eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth: Crynodeb**

**26 Eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth: Dadansoddiad**

26 Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth

26 Pensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth

27 Gwybodaeth bwysig - os ydych wedi byw a gweithio yn Ynys Manaw yn flaenorol, darllenwch y wybodaeth bwysig.

**28 Adran 4 – Pensiwn newydd y Wladwriaeth**

28 Pensiwn newydd y Wladwriaeth

28 Faint byddaf yn ei cael?

29 Sut byddwch yn gweithio allan fy swm cychwynnol ar gyfer Pensiwn newydd y Wladwriaeth?

29 A fydd fy swm cychwynnol yn cael ei effeithio oherwydd fy mod wedi bod mewn pensiwn gwaith, neu wedi talu i mewn i bensiwn preifat?

30 A fydd y swm a ddangosir yn fy natganiad yn newid os bydd blynyddoedd cymhwyso pellach yn cael eu hychwanegu at fy nghofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfer y blynyddoedd Treth cyn 6 Ebrill 2016?

31 Pryd byddwch yn gallu dweud wrthyf beth fydd fy swm cychwynnol?

33 A fydd blynyddoedd cymhwyso'n ychwanegu at fy nghofnod cyfraniadau YG ar gyfer blynyddoedd treth o 6 Ebrill 2016 ymlaen yn gwella fy Mhensiwn y Wladwriaeth?

33 Beth os byddaf yn cael llai na 10 mlyneddd gymhwyso yn Ebrill 2016?

34 A fydd fy Mhensiwn newydd y Wladwriaeth yn cynyddu bob blwyddyn?

35 Mae fy amcangyfrif yn seiliedig ar y rheolau ar hyn o bryd. Pa mor berthnasol ydyw?

36 Beth sy'n digwydd os oes gennyf orchymyn rhannu pensiwn?

36 Ymhle y caf wybod mwy ynglŷn â'r Pensiwn newydd y Wladwriaeth?

**34 Pensiwn y Wladwriaeth drwy eich briod neu bartner sifil**

34 Beth allai ei etifeddu os ydw i'n weddw?

35 Beth allaf gael os rwyf wedi talu cyfraniadau YG cyfradd ostyngol?

**36 Gwella eich Pensiwn y Wladwriaeth trwy dalu cyfraniadau YG gwirfoddol.**

## 41 Adran 5 – Gweithio neu fyw y tu allan i'r DU
**Dylai pawb ddarllen yr adran hon**

41 Yr amser a dreulir yn gweithio y tu allan i'r DU.

41 Effaith ar Bensiwn y Wladwriaeth y DU

42 Pensiwn y Wladwriaeth y DU y tu allan i'r DU

## 43 Adran 6 – Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?
**Dylai pawb ddarllen yr adran hon**

# Adran 1 – Trosolwg o Bensiwn y Wladwriaeth

**Dylai pawb ddarllen yr adran hon.**

Yn yr adran hon rydym yn egluro:

- beth yw Pensiwn y Wladwriaeth
- sut ydych yn cael Pensiwn y Wladwriaeth
- pryd gallech gael eich Pensiwn y Wladwriaeth, a
- sut i wneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth.

Mae gan ddatganiad Pensiwn y Wladwriaeth ddwy ran – 'Crynodeb' a 'Dadansoddiad'. Efallai y bydd darparwr eich datganiad wedi gwahanu adrannau 'Crynodeb' a 'Dadansoddiad' y wybodaeth am Bensiwn y Wladwriaeth. Os byddant wedi gwneud hyn, byddant yn dweud ble y gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth fanylach am y dadansoddiad. Mae'n bwysig eich bod yn darllen y ddwy ran o'ch datganiad.

## Beth yw Pensiwn y Wladwriaeth?

Mae Pensiwn y Wladwriaeth yn daliad rheolaidd y gallech ei gael pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Nid oes rhaid i chi roi'r gorau i weithio pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Gallwch barhau i weithio a dal i hawlio eich Pensiwn y Wladwriaeth. Neu efallai y byddwch yn penderfynu oedi cyn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth tan yn ddiweddarach – gweler tudalen 11.

**Dynion wedi'u geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1951 a merched wedi'u geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1953.**

Mae Pensiwn newydd y Wladwriaeth yn cael ei gyflwyno ar 6 Ebrill 2016.

Gan eich bod yn cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw, pan fyddwch yn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth bydd yn cael ei weithio allan drwy ddefnyddio rheolau newydd Pensiwn y Wladwriaeth.

**Nid yw'r swm o Bensiwn y Wladwriaeth a ddangosir ar eich datganiad yn seiliedig ar y rheolau newydd. Mae'n seiliedig ar y gyfraith os byddech yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth heddiw.**

Mae'r wybodaeth ar eich datganiad yn berthnasol o hyd oherwydd yn y mwyafrif o achosion, yr amcangyfrif cynllun presennol fydd y swm lleiaf y bydd rhywun yn ei gael pan fyddant yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Y newid pwysig o dan y cynllun newydd yw y byddwch angen o leiaf 10 o flynyddoedd cymhwyso Yswiriant Gwladol (lleiafswm cyfnod cymhwyso) pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i gael unrhyw Bensiwn y Wladwriaeth.

Yn Adran 4 o'r daflen hon mae mwy ynglŷn â beth y gallai'r newidiadau hyn ei olygu i chi, a sut y byddant yn effeithio ar y symiau a ddangosir yn eich amcangyfrif Pensiwn y Wladwriaeth.

Os ydych yn byw yn y DU, mae Pensiwn y Wladwriaeth yn cael ei gynyddu pob blwyddyn fel arfer i gymryd chwyddiant i ystyriaeth. Os ydych yn byw y tu allan i'r DU dim ond os ydych yn byw mewn gwledydd penodol y bydd y cynnydd yn cael ei dalu i chi – gweler tudalen 41.

Nid yw Pensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar brawf modd. Os oes gennych gynilion, cyfranddaliadau neu bensiynau eraill pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, nid ydynt yn effeithio ar werth eich Pensiwn y Wladwriaeth.

Fodd bynnag, mae Pensiwn y Wladwriaeth yn cyfrif fel incwm trethadwy. Bydd rhaid i chi dalu Treth Incwm os yw cyfanswm eich incwm (gan gynnwys eich Pensiwn y Wladwriaeth) yn fwy na'ch lwfans treth.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.gov.uk/tax-national-insurance-after-state-pension-age**

Os ydych yn cael rhai budd-daliadau'r wladwriaeth pan fyddwch yn hawlio eich Pensiwn y Wladwriaeth, efallai y bydd y budd-daliadau yn gorffen neu'n lleihau.

Bwriad Pensiwn y Wladwriaeth yw bod yn rhan o'ch incwm ymddeol. Gallwch benderfynu gwneud pethau nawr er mwyn cael mwy o arian i fyw arno pan fyddwch yn ymddeol. Er enghraifft os nad ydych wedi gwneud eisoes, efallai y gallwch ymuno â chynllun pensiwn yn eich gwaith, neu efallai bod gennych gynilion neu fuddsoddiadau eraill.

Cewch wybod mwy arlein ynglŷn â rhai o'r pethau efallai y byddwch eisiau eu gwneud i gynyddu eich incwm ymddeol.

**www.gov.uk/plan-retirement-income**

Os oes gennych gynilion pensiwn preifat eisoes, efallai y byddwch yn gallu cael mynediad atynt mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd. Mae'r llywodraeth wedi dileu'r cyfyngiadau ar yr hyn y gallwch ei wneud os oes gennych bensiwn cyfraniadau diffiniedig (pensiwn yn seiliedig ar faint sydd wedi'i dalu i mewn i'ch cronfa). Mae gennych y rhyddid i ddewis yr opsiwn sy'n iawn i chi.

I gael gwybod mwy am eich opsiynau arlein, gan gynnwys gwybodaeth am sut y gallwch gael gafael ar ganllawiau am ddim a diduedd ar eich opsiwn ymddeoliad ewch i **www.pensionwise.gov.uk**

## Sut ydw i'n cael Pensiwn y Wladwriaeth?

Mae faint o Bensiwn y Wladwriaeth a gewch yn seiliedig ar y nifer o flynyddoedd cymhwyso sydd gennych ar eich cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Gallwch gael blwyddyn gymhwyso drwy dalu cyfraniadau YG, cael credydau YG yn – gweler isod – neu gymysgedd o'r ddau.

Os ydych yn gweithio ac yn ennill dros swm penodol, ac ddim wedi cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth eto, mae'n rhaid i chi dalu cyfraniadau YG. Mae'r union swm rydych yn dalu yn dibynnu ar:

- faint rydych yn ennill, a
- p'un ai os ydych yn cael eich cyflogi neu'n hunangyflogedig.

Os nad ydych yn gweithio ac ddim yn talu cyfraniadau YG, efallai y gallwch gael credydau YG. Gall y rhain helpu i gynnal eich cofnod cyfraniadau YG ac felly diogelu eich hawliad i Bensiwn y Wladwriaeth a budd-daliadau penodol eraill. Efallai y gallwch gael credydau YG os, er enghraifft:

- rydych yn ddi-waith ac yn cael Lwfans Ceisio Gwaith neu Gredyd Cynhwysol
- ni allwch weithio oherwydd salwch ac rydych yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- rydych yn gofalu am blentyn o dan 12 ac yn cael, neu wedi gwneud cais am Fudd-dal Plant, neu
- rydych yn gofalu am rhywun ac yn gwneud cais am Gredyd Gofalwr.

Mae'n bwysig gwneud yn siŵr fod gennych yr holl gredydau mae gennych hawl iddynt, oherwydd mewn rhai achosion mae'n rhaid i chi wneud cais amdanynt – nid ydynt yn cael eu hychwanegu at eich cofnod cyfraniadau YG yn awtomatig. Gallwch gael hyd i restr lawn o'r amgylchiadau efallai y gallwch gael credydau, a sut ydych yn eu cael yn

**www.gov.uk/national-insurance-credits/overview**

Mae mwy o esboniadau manwl ar Bensiwn y Wladwriaeth ymhellach ymlaen yn y daflen.

## Beth yw blwyddyn gymhwyso?

Os ydych yn cael eich cyflogi, 'blwyddyn gymhwyso' yw blwyddyn dreth (6 Ebrill i 5 Ebrill) ble wnaethoch ennill (neu wedi eich credydu gydag enillion) isafswm. Yn 2015/2016 yr isafswm yw £5,824.

Os ydych yn hunangyflogedig, 'blwyddyn gymhwyso' yw blwyddyn dreth (6 Ebrill i 5 Ebrill) ble gwnaethoch dalu 52 o gyfraniadau Dosbarth 2. Mae'n rhaid i chi dalu'r rhain os ydych yn ennill o leiaf £5,965 y flwyddyn, ond gallwch eu talu'n wirfoddol os ydych yn ennill o dan y swm hwn.

Mae unrhyw gredydau YG efallai sydd gennych (gweler tudalen 8) a chyfraniadau YG gwirfoddol rydych wedi eu talu (gweler tudalen 22 neu dudalen 39) yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth weithio allan p'un ai os yw blwyddyn dreth yn flwyddyn gymhwyso.

Felly os ar ddiwedd y flwyddyn dreth rydych wedi ennill (neu wedi eich credydu gydag enillion) y lleiafswm neu fwy, neu wedi talu 52 o gyfraniadau Dosbarth 2, yna mae hynny'n flwyddyn gymhwyso. Nid oes ots os ydych wedi gweithio'n rhan amser neu'n llawn amser.

## Pam wyf yn gorfod talu cyfraniadau YG pan mae gennyf ddigon o flynyddoedd cymhwyso eisoes i gael Pensiwn y Wladwriaeth llawn?

Hyd yn oed os oes gennych ddigon o flynyddoedd cymhwyso i gael Pensiwn y Wladwriaeth llawn, os nad ydych wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth eto mae'n rhaid i chi barhau i dalu cyfraniadau YG os ydych yn:

- gyflogai yn ennill dros £155 yr wythnos, neu
- hunangyflogedig ac yn ennill dros £5,965 y flwyddyn.

Mae cyfraniadau YG yn ariannu Pensiwn y Wladwriaeth a budd-daliadau eraill y wladwriaeth sy'n cael eu talu heddiw (fel Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a budd-daliadau profedigaeth) yn ogystal â'r Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol.

Gallai'r cyfraniadau YG rydych yn eu talu helpu i'ch diogelu os ydych angen gwneud cais am un o'r budd-daliadau eraill hyn cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae'r rheolau cymhwyso ar gyfer y budd-daliadau hyn yn wahanol i'r rhai ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth.

## Pryd y gallaf gael fy Mhensiwn y Wladwriaeth?

Y dyddiad cynharaf y gallwch gael eich Pensiwn y Wladwriaeth yw pan fyddwch yn cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Dangosir eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth o dan y gyfraith bresennol ar eich datganiad.

Nid ydym wedi dangos eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar eich datganiad os ganwyd chi rhwng a chan gynnwys 6 Ebrill 1960 a 5 Ebrill 1969. Mae hyn oherwydd bod eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth wedi newid. Gallwch gael gwybod beth yw eich oedran Pensiwn newydd y Wladwriaeth drwy fynd i **www.gov.uk/calculate-state-pension**

Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd yn adolygu'r oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn rheolaidd. Bydd yr adolygiad cyntaf yn cael ei gwblhau cyn mis Mai 2017.

## Sut ydw i'n hawlio fy Mhensiwn y Wladwriaeth?

Ychydig cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, byddwn yn anfon llythyr atoch. Bydd hyn yn dweud wrthych beth sydd angen i chi ei wneud er mwyn cael eich Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddwch yn cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Cewch ragor o wybodaeth yn **www.gov.uk/state-pension/how-to-claim**

## A oes rhaid i mi ei hawlio ar unwaith?

Nid oes rhaid i chi wneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Gallwch chi oedi cyn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth i ddyddiad hwyrach. Gelwir hyn yn gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth, ac mae'r swm y byddwch yn ei gael yn cael ei alw'n Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol.

Mae rheolau gwahanol, yn dibynnu ar pryd y byddwch yn cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

### Yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu cyn 5 Ebrill 2016

Cyn belled ag y byddwch yn oedi eich cais am o leiaf bum wythnos, ac nid ydych yn cael budd-daliadau'r wladwriaeth penodol yn ystod y cyfnod hwn, pan fyddwch yn gwneud cais yn y pen draw am eich Pensiwn y Wladwriaeth wedi ei ohirio efallai y byddwch yn gallu cael rhagor o Bensiwn y Wladwriaeth am oes. Os byddwch yn oedi cyn gwneud cais am flwyddyn neu fwy, bydd gennych yr opsiwn o gael cyfandaliad trethadwy yn lle hynny. Pan fyddwch yn y pen draw yn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth, bydd yn cael ei dalu o dan reolau'r cynllun Pensiwn y Wladwriaeth sy'n berthnasol ar y dyddiad y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae hyn yn wir, hyd yn oed os ydych yn dewis gohirio gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth tan ar ôl i'r Pensiwn newydd y Wladwriaeth ddechrau ar 6 Ebrill 2016.

Cewch ragor o wybodaeth yn
**www.gov.uk/deferring-state-pension**

### Yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016

Cyn belled ag y byddwch yn oedi eich cais am o leiaf naw wythnos, ac nad ydych yn cael budd-daliadau'r wladwriaeth penodol yn ystod y cyfnod hwn, pan fyddwch gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth wedi ei ohirio gallech gael mwy o Bensiwn y Wladwriaeth am oes yn y pen draw. Ni all eich gŵr, gwraig neu bartner sifil etifeddu eich Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn
**www.gov.uk/new-state-pension/eligibility**

# Adran 2 – Eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth

**Darllenwch yr adran hon os ydych yn ddyn wedi'i eni ar neu cyn 5 Ebrill 1951, neu yn ferch wedi'i geni ar neu cyn 5 Ebrill 1953.**

Yn yr adran hon rydym yn esbonio:

- sut rydym yn gweithio allan yr amcangyfrif o Bensiwn y Wladwriaeth a ddangosir ar dudalen 1 o'ch datganiad
- y gwahanol rannau o'r Pensiwn y Wladwriaeth
- sut y gall y swm yn y datganiad hwn newid os bydd blynyddoedd cymhwyso pellach yn cael eu hychwanegu at eich cofnod cyfraniadau YG
- sut y gall eich Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth cael ei effeithio os ydych wedi bod yn aelod o bensiwn yn y gwaith neu gynllun pensiwn preifat

## Eich Datganiad Pensiwn y Wladwriaeth: Crynodeb

Mae amcangyfrif o'ch Pensiwn y Wladwriaeth a ddangosir ar dudalen 1 o'ch datganiad hwn yn gyfanswm y swm y gallech ei gael pan fydd eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a Phensiwn ychwanegol y Wladwriaeth (gan gynnwys unrhyw Fudd-dal Graddedig Ymddeol) yn cael eu hychwanegu at ei gilydd. Mae'n seiliedig ar y canlynol:

- gwybodaeth o gofnod cyfraniadau YG ar y pryd mae eich amcangyfrif yn cael ei gynhyrchu.
- cyfraddau Pensiwn y Wladwriaeth ar y pryd cynhyrchwyd eich datganiad,ac
- y wybodaeth a roddir gan eich darparwr pensiwn er mwyn ein helpu i baratoi eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth.

Mae'r amcangyfrif yn seiliedig ar eich cofnod cyfraniadau YG yn unig, ac nid yw'n cymryd i ystyriaeth unrhyw gyfraniadau pellach y gellir eu hychwanegu at eich cofnod cyfraniadau YG cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

# Eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth: Dadansoddiad

Mae'r rhan hon o'ch datganiad yn dangos i chi sut mae'r swm yn y crynodeb wedi ei wneud i fyny. Mae'n rhoi symiau ar wahân ar gyfer Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a Phensiwn ychwanegol y Wladwriaeth (gan gynnwys unrhyw Fudd-dal Ymddeol Graddedig). Mae'n esbonio hefyd sut y gallai blynyddoedd cymhwyso pellach effeithio ar y symiau a ddangosir.

## Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth

Mae amcangyfrif o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth y gallwch ei gael yn seiliedig ar nifer y blynyddoedd cymhwyso sydd gennych ar eich cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol fel y mae ar hyn o bryd.

Nid yw eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth yn nodi sawl blwyddyn gymhwyso sydd gennych ar eich cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Fodd bynnag, gallwch gyfrifo hyn drwy rannu faint o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth rydym wedi'i nodi gyda £3.87. Er enghraifft, os mai £57.98 yr wythnos yw eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth sydd wedi'i amcangyfrif, drwy ei rannu gyda £3.87 byddwch yn gweld bod gennych 15 o flynyddoedd cymhwyso ar hyn o bryd.

Os oes gennych 30 neu fwy o flynyddoedd cymhwyso eisoes, y gyfradd lawn o £115.95 yr wythnos fydd Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a ddangosir sydd wedi'i amcangyfrif. Dyma'r mwyaf y gallwch ei gael o'ch Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

Efallai nad oes gennych 30 o flynyddoedd cymhwyso eto. Fodd bynnag, efallai y caiff blynyddoedd cymhwyso eu hychwanegu at eich cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyn i chi gyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae pob blwyddyn gymhwyso ychwanegol a ychwanegir at eich cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol werth tua £3.87 yr wythnos mewn Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth. Unwaith y bydd gennych y 30 o flynyddoedd cymhwyso sydd eu hangen arnoch i gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn, ni allwch ei gynyddu eto.

Ar dudalennau 16 i 23 o'r daflen hon rydym yn dweud wrthych am ffyrdd eraill y gallech wella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth os na fydd gennych 30 o flynyddoedd cymhwyso erbyn yr amser y byddwch yn cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth, a lle i fynd am fwy o wybodaeth.

## Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth – Cyffredinol

Telir Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn ychwanegol at Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth ac mae'n seiliedig ar enillion. Pan gafodd ei gyflwyno ym mis Ebrill 1978 fe'i gelwid yn Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar Sail Enillion (SERPS).

Ers mis Ebrill 2002, fe'i gelwir yn Ail Bensiwn y Wladwriaeth.

Mae'r amcangyfrif yn eich datganiad yn dangos datganiad pensiwn eich cofnod cyfraniadau YG fel y mae ar hyn o bryd. Gallai eich swm terfynol fod yn uwch, neu mewn rhai amgylchiadau yn is na'r hyn a ddangosir yn eich amcangyfrif (gweler tudalen 15). Byddwn yn gallu rhoi swm terfynol ar gyfer eich Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth pan fyddwch yn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth.

Yn wahanol i Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth, nid oes gan Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth derfyn o 30 o flynyddoedd cymhwyso. Felly, oni bai y cewch eich eithrio o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth (gweler y dudalen nesaf), neu'ch bod yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol neu hunangyflogedig, mae'n debygol y bydd pob blwyddyn gymhwyso yn y dyfodol a ychwanegir at eich cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn rhoi o leiaf £1.80 yr wythnos yn fwy o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth i chi.

**Enghraifft – sut y gallaf gael mwy o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth?**

Mae Hamid yn mynd i gyrraedd ei oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar 29 Mehefin 2015. Mae'n cyfrannu at Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.

Mae ganddo 40 o flynyddoedd cymhwyso ar ei gofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol, hyd at ac yn cynnwys y flwyddyn dreth 2013/14). Mae'r rhain yn rhoi £115.95 yr wythnos o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth iddo (yr uchafswm) a £42.80 yr wythnos o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.

Hyd nes y bydd Hamid yn cyrraedd ei oedran Pensiwn y Wladwriaeth, gall pob blwyddyn gymhwyso ychwanegol a nodir ar ei gofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol roi £1.80 yr wythnos yn fwy o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth iddo.

Felly, os bydd gan Hamid yn cael un flwyddyn gymhwyso arall ar ei gofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol pan fydd yn cyrraedd ei oedran Pensiwn y Wladwriaeth, byddai ei Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn £115.95 yr wythnos o hyd, ond efallai y bydd ei Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth wedi cynyddu i tua £43.88 yr wythnos (£1.80 yn ychwanegol).

Dim ond ar gyfer rhesymau eglurhaol mae cynnwys yr enghreifftiau yn y daflen hon.

Ni allwch gynyddu faint o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth y gallwch ei gael drwy ddefnyddio cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol eich gŵr, gwraig neu bartner sifil, er hynny efallai byddwch yn gallu etifeddu rhywfaint o'u Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth ar ôl iddynt farw.

## Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth – beth os ydwyf mewn pensiwn gwaith neu gynllun pensiwn preifat?

Os ydych neu roeddech mewn cynllun pensiwn cyflog diwethaf neu'n berthnasol i gyflog neu, cyn mis Ebrill 2012 roeddech mewn cynllun pensiwn gwaith, rydych yn debygol o fod wedi "eithrio" o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth. Cafodd rhai cynlluniau pensiwn hapddaliwr a phersonol eu heithrio hefyd.

Os ydych wedi cael eich eithrio o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth, ni chewch lawer o Bensiwn y Wladwriaeth. Mewn rhai achosion efallai na gewch unrhyw Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth. Mae hyn oherwydd, yn dibynnu ar y math o gynllun

- buasech wedi talu cyfraniadau YG ar gyfradd is, a
- cafodd rhywfaint o gyfraniadau YG a daloch eu defnyddio i cyfrannu at eich pensiwn hapddaliwr neu bersonol yn lle Pensiwn ychwanegol y Wladwiaeth.

Fodd bynnag, dylai'r pensiwn a gewch o'ch cynllun neu gynlluniau pensiwn preifat am y cyfnodau y cawsoch eich eithrio ohonynt gynnwys swm sydd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn o leiaf yn gyfartal â'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth y buasech wedi ei gael pe baech heb eithrio. Gallai fod hyd yn oed yn uwch.

Mae'r amcangyfrif o'ch Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth yn debygol o newid erbyn yr amser rydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Gallai fod yn llai mewn rhai amgylchiadau. Efallai y gallai hyn ddigwydd os

- oeddech yn aelod o gynllun pensiwn gweithle unrhyw amser rhwng 1978 a 1997, ac mae'r pensiwn rydych yn ei gael yn gysylltiedig â'ch cyflog. Er enghraifft, cynlluniau Budd-dal Diffiniedig, cyflog terfynol neu gyflog cyfartalog
- oeddech wedi gadael neu yn gadael y cynllun cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ac

- os yw eich cynllun pensiwn yn ailbrisio eich buddion pensiwn cadwedig pob blwyddyn gan ganran sy'n fwy nag enillion cenedlaethol cyfartalog.

Fodd bynnag, ni fyddwch yn colli allan yn gyfan gwbl, gan hyn, gan y bydd gwerth eich buddion cynllun preifat wedi cynyddu os yw hyn yn digwydd.

### Budd-dal Ymddeol Graddedig

Bydd y swm o Fudd-dal Ymddeol Graddedig a gewch pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar faint o gyfraniadau graddedig rydych wedi eu talu.

Byddwch wedi talu cyfraniadau graddedig os oeddech, rhwng mis Ebrill 1961 a mis Ebrill 1975:

- dros 18 oed
- yn gweithio i gyflogwr ac yn talu Treth Incwm ac YG drwy'r trefniadau 'Talu Wrth Ennill'
- yn ennill dros £9 yr wythnos ar y pryd.

Byddwn wedi cynnwys unrhyw Fudd-dal Ymddeol Graddedig efallai a gewch yn eich amcangyfrif Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn eich datganiad – nid ydym wedi dangos y swm ar wahân.

## Pensiwn y Wladwriaeth drwy eich priod neu bartner sifil

Os nad ydych yn meddwl y byddwch yn cael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn seiliedig ar eich cofnod cyfraniad YG ar eich hun, byddwch yn cael llai na'r gyfradd lawn, mae sawl ffordd efallai y gallwch ei wella.

### Os ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y paragraffau canlynol yn ofalus. Byddant yn esbonio sut bydd cyflwyniad Pensiwn newydd y Wladwriaeth ar 6 Ebrill 2016 yn gallu effeithio ar sut y gallwch ddefnyddio'r cofnod cyfraniadau YG eich gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu ddiweddar ŵr neu gyn ŵr, gwraig neu bartner sifil i gynyddu eich Pensiwn y Wladwriaeth.

Pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, os ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil ac mae gennych lai na 18 o

flynyddoedd cymhwyso, efallai y byddwch yn gallu gwella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth drwy ddefnyddio cofnod cyfraniadau YG eich gŵr, gwraig neu bartner sifil. I wneud hyn dylai eich gŵr, gwraig neu bartner sifil fod hefyd wedi cyrraedd eu hoedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Os ydych yn ddyn priod, gwraig briod wedi priodi â merch neu bartner sifil, rhaid i'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, hefyd fod wedi cael eu geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1950. Nid yw hyn yn berthnasol os ydych yn ferch briod wedi priodi â merch sy'n newid yn gyfreithiol rhwng y ddau ryw o ddyn i ferch ar ôl eich priodas iddi hi ac ni fu unrhyw doriad yn eich priodas.

Os, pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ni fydd eich gŵr, gwraig neu bartner sifil wedi cyrraedd eu hoedran Pensiwn y Wladwriaeth eto, efallai y byddwch yn gallu cynyddu eich Pensiwn y Wladwriaeth yn y ffordd hon o'r dyddiad y maent yn cyrraedd eu hoedran Pensiwn y Wladwriaeth. Gweler tudalen 18 os yw eich gŵr, gwraig neu bartner sifil yn cyrraedd eu hoedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016.

Yr uchafswm Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth y gallwch ei gael gan ddefnyddio eich cofnod cyfraniadau YG chi a rhai eich gŵr, gwraig neu bartner sifil yw tua 60% o'r gyfradd lawn (£69.50 yr wythnos yn 2015/2016).

Nid oes gan Ogledd Iwerddon briodas un rhyw; cyplau o'r un rhyw sy'n priodi yn cael eu trin fel partneriaid sifil at ddibenion Cyfraith Gogledd Iwerddon.

**Enghraifft – sut y gallai defnyddio cofnod YG eich gŵr, gwraig neu bartner sifil helpu i gynyddu eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth**

Mae Charlotte wedi bod yn briod â Philip ers 38 o flynyddoedd. Bydd yn cyrraedd ei hoedran Pensiwn y Wladwriaeth ar 6 Mawrth 2016. Mae Philip eisoes wedi cyrraedd ei oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ac mae'n cael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth ar y gyfradd lawn sef £115.95 yr wythnos.

Mae gan Charlotte 12 o flynyddoedd cymhwyso wedi'u cofnodi ar ei chofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Yn seiliedig ar y blynyddoedd cymhwyso hyn, byddai'n cael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth gwerth 12/30 o'r gyfradd lawn, sydd yn £46.38 yr wythnos.

Gellid gwella Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth Charlotte pe byddai'n defnyddio cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol Philip. Gall gael cyfanswm o £69.50 yr wythnos, sef y mwyaf y gall ei gael drwy ddefnyddio ei chofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol ei hun a chofnod Philip.

Dim ond ar gyfer rhesymau eglurhaol mae cynnwys yr enghreifftiau yn y daflen hon.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.gov.uk/state-pension/eligibility**

## Os bydd eich gŵr, gwraig neu bartner sifil yn cyrraedd eu hoedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016

Mae cynllun Pensiwn y Wladwriaeth newydd yn dechrau ar 6 Ebrill 2016. Pan fydd hwn yn cael ei gyflwyno, bydd y newidiadau ynglŷn â defnyddio cofnod cyfraniadau YG eich gŵr, gwraig neu bartner sifil i gynyddu eich Pensiwn y Wladwriaeth yn newid. Mae'r newidiadau hyn yn golygu efallai y gallwch gynyddu eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth o'r dyddiad maent yn cyrraedd eu hoedran Pensiwn y Wladwriaeth, ond gallwch ddim ond defnyddio eu cyfraniadau YG am y blynyddoedd treth hyd at a chan gynnwys 2015/2016.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.gov.uk/new-state-pension**

## Os ydych yn weddw neu'n bartner sifil sydd wedi goroesi cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Efallai y gallwch wella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth drwy ddefnyddio cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol eich diweddar ŵr, gwraig neu bartner sifil. Y mwyaf y gallwch ei gael drwy wneud hyn yw £115.95 yr wythnos, sef cyfradd lawn Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

Efallai y gallwch hefyd etifeddu holl Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth eich diweddar ŵr, gwraig neu bartner sifil. Byddwn yn gallu dweud wrthych faint o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth efallai byddwch yn etifeddu pan fyddwch yn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth.

Os ydych yn weddw neu'n bartner sifil sydd wedi goroesi, gallwn ddweud wrthych nawr p'un a fydd defnyddio cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol eich diweddar ŵr, gwraig neu bartner sifil yn gwella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth. Cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion a ddangosir ar dudalen 42.

Os ydych yn ailbriodi neu’n ffurfio partneriaeth newydd cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ni fyddwch yn gallu:

- defnyddio cofnod cyfraniadau YG eich diweddar ŵr, gwraig neu bartner sifil i wella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth, neu
- etifeddu unrhyw o’u Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

Fodd bynnag, efallai y gallwch ddefnyddio cofnod cyfraniadau YG eich gŵr, gwraig neu bartner sifil newydd i wella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth hyd at uchafswm o £69.50 yr wythnos yn 2015/2016 – gweler tudalen 16.

## Os ydych yn weddw neu’n mynd yn bartner sifil sy’n goroesi ar ôl i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ond cyn 6 Ebrill 2016

Efallai y gallwch ddefnyddio cofnod cyfraniadau YG eich diweddar ŵr, gwraig neu bartner sifil i wella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth. Y Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth mwyaf y gallwch gael drwy wneud hyn yw £115.95 yr wythnos, sef y gyfradd lawn o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

Efallai y gallwch etifeddu rhywfaint neu holl Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth eich diweddar ŵr, gwraig neu bartner sifil.

Cewch ragor o wybodaeth yn
**www.gov.uk/state-pension/eligibility**

## Os ydych yn weddw neu’n mynd yn bartner sifil sy’n goroesi ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016

Pan fydd y cynllun Pensiwn y Wladwriaeth newydd yn cychwyn ar 6 Ebrill 2016, bydd y rheolau ynglŷn â defnyddio cofnod cyfraniadau YG eich diweddar ŵr, gwraig neu bartner sifil i gynyddu eich Pensiwn y Wladwriaeth yn newid. Mae’r newidiadau hyn yn golygu os oedd eich diweddar ŵr, gwraig neu bartner sifil yn cyrraedd neu’n mynd i gyrraedd, eu hoedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016, gallwch ddim ond defnyddio eu cyfraniadau YG hwy am y blynyddoedd treth hyd at a chan gynnwys 2015/2016 i gynyddu eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

Cewch ragor o wybodaeth yn
**www.gov.uk/new-state-pension**

## Os ydych wedi ysgaru neu os yw eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Efallai y gallwch wella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth drwy ddefnyddio cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol eich cyn-ŵr, gwraig neu bartner sifil. Y mwyaf y gallwch ei gael drwy wneud hyn yw £115.95 yr wythnos, sef cyfradd lawn Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

Os byddwch wedi ysgaru neu os bydd eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu, gallwn ddweud wrthych os byddwch yn gallu gwella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth drwy ddefnyddio cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol eich cyn-ŵr, gwraig neu bartner sifil. Cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion a ddangosir ar dudalen 42.

Os ydych yn ailbriodi neu'n ffurfio partneriaeth newydd cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ni fyddwch yn gallu defnyddio cofnod cyfraniadau YG eich cyn ŵr, gwraig neu bartner sifil i wella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

Fodd bynnag, efallai y gallwch ddefnyddio cofnod cyfraniadau YG eich gŵr, gwraig neu bartner sifil newydd i wella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth – gweler tudalen 16.

## Os ydych wedi ysgaru neu os yw eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu ar ôl i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ond cyn 6 Ebrill 2016

Efallai y gallwch wella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth drwy ddefnyddio cofnod cyfraniadau YG eich cyn-ŵr, gwraig neu bartner sifil.

Y Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth mwyaf y gallwch ei gael drwy wneud hyn yw £115.95 yr wythnos, sef y gyfradd lawn o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

Am ragor o wybodaeth, ewch i
**www.gov.uk/state-pension/eligibility**

## Os ydych wedi ysgaru neu os yw eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu ar neu ar ol 6 Ebrill 2016

Pan fydd y cynllun Pensiwn y Wladwriaeth newydd yn cychwyn ar 6 Ebrill 2016, bydd y rheolau ynglŷn â defnyddio cofnod cyfraniadau YG eich cyn ŵr, gwraig neu bartner sifil i gynyddu eich Pensiwn y Wladwriaeth yn newid. Mae'r newidiadau hyn yn golygu os oedd eich cyn ŵr, gwraig neu bartner sifil yn cyrraedd neu'n mynd i gyrraedd, eu hoedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016, ac yr ydych wedi ysgaru neu eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw, gallwch ddim ond defnyddio eu cyfraniadau YG hwy am y blynyddoedd treth hyd at a chan gynnwys 2015/2016 i gynyddu eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

Am ragor o wybodaeth, ewch i
**www.gov.uk/new-state-pension**

# Gwella eich Pensiwn y Wladwriaeth drwy dalu cyfraniadau YG gwirfoddol

Efallai y gallwch dalu cyfraniadau gwirfoddol i gynyddu eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth neu Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth, ond nid yw hyn yn iawn i bawb. Mae'n dibynnu ar eich amgylchiadau personol. Dylech feddwl yn ofalus ynglŷn â p'un ai yw talu cyfraniadau gwirfoddol yn iawn i chi.

Os ydych yn gweithio neu'n cael budd-daliadau penodol y wladwriaeth, gellir ychwanegu blynyddoedd cymhwyso pellach i'ch cofnod cyfraniadau YG cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Neu efallai y gallwch gynyddu eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth drwy un o'r ffyrdd eraill a sonwyd amdanynt ar y tudalennau blaenorol.

## Cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol Dosbarth 2 a Dosbarth 3

Efallai y gallwch dalu cyfraniadau YG Dosbarth 2 neu Ddosbarth 3 gwirfoddol am flynyddoedd blaenorol ble nad oes digon o gyfraniadau neu gredydau ar eich cofnod cyfraniadau YG am flwyddyn i gyfrif fel blwyddyn gymhwyso. Mae holl gyfraniadau Dosbarth 2 a Dosbarth 3 gwirfoddol yn cyfrif tuag at Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a budd-daliadau profedigaeth.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.gov.uk/voluntary-national-insurance-contributions**

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.gov.uk/automatic-pension-credits-for-men**

## Ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth

Os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016 ac rydych â hawl i gael Pensiwn y Wladwriaeth, gallwch gynyddu eich Pensiwn y Wladwriaeth drwy'r cynllun ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth. Mae'r cynllun yn caniatáu i chi gynyddu eich Pensiwn y Wladwriaeth o hyd at £25 yr wythnos drwy wneud cyfandaliad cyfraniad Yswiriant Gwladol gwirfoddol Dosbarth 3A. Bydd y cynllun ar agor rhwng 12 Hydref 2015 a 5 Ebrill 2017 a gallwch wneud cyfraniadau ar unrhyw adeg rhwng y dyddiadau hynny.

Mae Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol a gewch gan gynllun ychwanegiad Pensiwn y Wladwriaeth yn cael ei ychwanegu at eich Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddwch yn ei hawlio, ond ni fydd yn cael ei ddangos ar eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth.

Am ragor o wybodaeth, ewch i
**www.gov.uk/state-pension-topup**

# Adran 3 – Eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth

**Darllenwch yr adran hon os ydych yn ddyn wedi'i eni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1951, neu'n ferch wedi ei geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1953.**

Yn yr adran hon rydym yn esbonio:
- sut rydym yn gweithio allan yr amcangyfrif o Bensiwn y Wladwriaeth a ddangosir ar dudalen 1 o'ch datganiad
- sut y mae'r swm ar dudalen 1 wedi'i wneud i fyny.

Gan eich bod yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl i'r cynllun Pensiwn newydd y Wladwriaeth ddechrau, pan fyddwch yn gwneud cais amdano bydd eich Pensiwn y Wladwriaeth yn cael ei weithio allan drwy ddefnyddio'r rheolau cynllun Pensiwn newydd y Wladwriaeth.

**Nid yw'r swm o Bensiwn y Wladwriaeth a ddangosir ar eich datganiad yn seiliedig ar y rheolau newydd. Mae'n seiliedig ar y gyfraith os byddech chi'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth heddiw.**

Mae'r wybodaeth yn eich datganiad yn berthnasol o hyd oherwydd, yn y mwyafrif o achosion, y lleiafswm y bydd rhywun yn gael pan fyddant yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yw'r amcangyfrif cynllun presennol hwn. Newid pwysig o dan y cynllun newydd yw eich bod angen o leiaf 10 o flynyddoedd cymhwyso Yswiriant Gwladol ( isafswm y cyfnod cymwhwyso) pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i gael unrhyw Bensiwn y Wladwriaeth. Efallai y gallwn rhoi amcangyfrif i chi o faint fydd eich Pensiwn y Wladwriaeth drwy defnyddio'r rheolau newydd. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/state-pension-statement**

# Eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth: Crynodeb

Y swm o Bensiwn y Wladwriaeth a ddangosir ar dudalen 1 o'ch datganiad yw'r cyfanswm wedi ei weithio allan drwy ddefnyddio'r gyfraith sy'n berthnasol i bobl sy'n cyrraedd eu hoedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn i'r Pensiwn y Wladwriaeth ddechrau.
Mae hefyd yn seiliedig ar:

- y wybodaeth yn eich cofnod cyfraniadau YG ar yr amser y cynhyrchwyd eich datganiad.
- cyfraddau Pensiwn y Wladwriaeth ar yr amser y cynhyrchwyd eich datganiad
- y wybodaeth wedi ei roi gan eich darparwr pensiwn i'n helpu i ddarparu eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth.

Nid yw eich amcangyfrif yn cymryd i ystyriaeth unrhyw gyfraniadau pellach a allai gael eu hychwanegu i'ch cofnod cyfraniadau YG cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Unwaith y bydd y cynllun Pensiwn newydd y Wladwriaeth yn cychwyn yn 2016, ni fydd cynlluniau Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth, Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth a Budd-dal Ymddeol Graddedig yn cael eu talu mwyach i bobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016.

**Fodd bynnag, bydd y cyfraniadau rydych wedi eu gwneud i'r hen gynlluniau hyn yn cael eu defnyddio i weithio allan eich swm cychwynnol o dan y cynllun newydd ar 6 Ebrill 2016 (gweler tudalen 29).**

# Eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth: Dadansoddiad

Mae'r rhan hon o'ch amcangyfrif yn dangos sut y cyfrifir y swm a ddangosir yn y crynodeb. Mae'n rhoi symiau ar wahân ar gyfer Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a Phensiwn ychwanegol y Wladwriaeth (yn cynnwys unrhyw Budd-dal Ymddeol Graddedig).

## Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth

Mae'r amcangyfrif o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth y gallwch ei gael yn seiliedig ar:

- nifer y blynyddoedd cymhwyso sydd gennych ar eich cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol fel y mae ar hyn o bryd, a
- y rheolau sy'n berthnasol cyn i'r cynllun Pensiwn newydd y Wladwriaeth ddechrau ar 6 Ebrill 2016.

Nid yw eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth yn dweud wrthych faint o flynyddoedd cymhwyso sydd gennych ar eich cofnod cyfraniadau YG. Fodd bynnag, gallwch weithio hyn allan drwy rannu faint o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a ddangosir gan £3.87. Er enghraifft, os yw eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a amcangyfrifir yn £57.98 yr wythnos, ei rannu gan £3.87 yn dangos bod gennych 15 mlynedd cymhwyso ar hyn o bryd.

Os oes gennych 30 neu fwy o flynyddoedd cymhwyso eisoes, bydd y swm o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth wedi ei amcangyfrif a ddangosir yn gyfradd lawn o £115.95 yr wythnos. Hyn yw'r mwyaf y gall eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth fod.

## Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth

Cyflwynwyd Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth ym mis Ebrill 1978 fe'i gelwid yn Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar Sail Enillion (SERPS). Ers mis Ebrill 2002, fe'i gelwir yn Ail Bensiwn y Wladwriaeth.

Mae amcangyfrif eich Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth (gan gynnwys unrhyw Fudd-dal Ymddeol Graddedig) yn seiledig ar eich cofnod cyfraniadau YG fel mae'n sefyll nawr. Efallai bydd y swm o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth y byddwn yn ei ddefnyddio i weithio allan eich swm cychwynnol o dan y cynllun newydd ar 6 Ebrill 2016 yn wahanol i'r hynny a ddangosir ar eich datganiad.

Am ragor o wybodaeth, ewch i
**www.gov.uk/state-pension**

## Gwybodaeth bwysig – os ydych wedi byw a gweithio yn Ynys Manaw yn flaenorol

Os ydych wedi gweithio a thalu cyfraniadau YG yn Ynys Manaw yn flaenorol, rydym wedi gweithio allan eich amcangyfrif yn eich datganiad yn seiliedig ar eich cyfraniadau YG y DU ac Ynys Manaw. Mae hyn oherwydd o dan y trefniadau nawdd cymdeithasol presennol rhwng y DU ac Ynys Manaw, dim ond y wlad lle rydych yn byw sy'n talu'r Pensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar holl gyfraniadau y DU ac Ynys Manaw.

Fodd bynnag, mae llywodraeth Ynys Manaw wedi penderfynu na fydd yn derbyn y Pensiwn newydd y Wladwriaeth o 6 Ebrill 2016.

Bydd llywodraethau'r DU ac Ynys Manaw yn penderfynu'r newidiadau fydd angen cael eu gwneud i'w trefniadau nawdd cymdeithasol presennol o 6 Ebrill 2016 o ganlyniad i benderfyniad Ynys Manaw i beidio â derbyn y Pensiwn newydd y Wladwriaeth. **Efallai y bydd y trefniadau newydd yn effeithio ar y Pensiwn y Wladwriaeth a gewch gan y DU ac Ynys Manaw. Mae hyn yn golygu bydd yr amcangyfrif Pensiwn y Wladwriaeth y DU rydym wedi ei roi i chi nawr yn eich datganiad efallai'n newid.**

Os ydych wedi gweithio yn Ynys Manaw yn flaenorol ac rydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016, dylech gael datganiad arall o fis Hydref 2016.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â cynllun pensiwn Ynys Manaw, a budd-daliadau eraill ar gael, ymwelwch â
**www.gov.im/categories/benefits-and-financial-support**

# Adran 4 – Pensiwn newydd y Wladwriaeth

**Darllenwch yr adran hon os ydych yn ddyn wedi'i eni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1951, neu'n ferch a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1953.**

Yn yr adran hon rydym yn esbonio:
- Pensiwn newydd y Wladwriaeth
- y cyfnod cymhwyso gofynnol
- sut y byddwn yn gweithio allan eich Pensiwn newydd y Wladwriaeth
- sut mae'r amcangyfrif o'ch Pensiwn y Wladwriaeth a roddir yn eich datganiad yn gallu newid
- sut mae eich Pensiwn y Wladwriaeth yn effeithio ar orchymyn rhannu pensiwn
- sut y gallwch gael Pensiwn y Wladwriaeth drwy eich priod neu bartner sifil, a
- sut efallai y gallwch wella eich Pensiwn y Wladwriaeth drwy dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol.

## Pensiwn newydd y Wladwriaeth

Bydd Pensiwn newydd y Wladwriaeth yn daliad rheolaidd gan y llywodraeth y gallwch hawlio os ydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016. Byddwch yn gallu cael Pensiwn newydd y Wladwriaeth, os ydych chi'n gymwys ac yn:
- ddyn a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1951
- ferch a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1953.

Bydd Pensiwn newydd y Wladwriaeth yn cymryd lle'r cynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar hyn o bryd.

Bydd y gyfradd lawn o Bensiwn newydd y Wladwriaeth yn cael ei benderfynu yn nes at y dyddiad y bydd yn dechrau. Ar gyfer yr enghreifftiau yn y daflen hon, **rydym wedi defnyddio £151.25 yr wythnos fel y gyfradd lawn o Bensiwn newydd y Wladwriaeth**.

## Faint y byddaf yn ei gael?

O dan y cynllun newydd mae rheolau gwahanol yn dibynnu os oes gennych gyfraniadau YG yn y cynllun presennol. Yn y ddau achos, i gael Pensiwn y Wladwriaeth rhaid i chi fodloni'r isafswm cyfnod cymhwyso – gweler isod.

Mae llawer o bobl, fel chi gyda chyfraniadau ar eu cofnod cyfraniad YG ar gyfer blynyddoedd treth cyn i'r cynllun newydd ddechrau ar 6 Ebrill 2016. Rydym yn defnyddio'r cyfraniadau hyn i weithio allan faint o Bensiwn y Wladwriaeth y maent yn gallu roi i chi. Rydym yn galw'r swm hwn eich **swm cychwynnol** ar gyfer Pensiwn newydd y Wladwriaeth.

Mae'r rheolau'n gwneud yn siŵr bod y swm o Bensiwn y Wladwriaeth a gewch am y cyfraniadau hynny ddim llai o dan y cynllun newydd na'r hyn yr ydych yn ei gael o dan y cynllun presennol – cyn belled â'ch bod yn bodloni'r isafswm cyfnod cymhwyso.

## Beth yw isafswm cyfnod cymhwyso?

Byddwch angen isafswm o 10 o flynyddoedd cymhwyso (yr isafswm cyfnod cymhwyso ) ar eich cofnod cyfraniadau YG pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i gael **unrhyw** Bensiwn y Wladwriaeth. Nid oes rhaid i hyn fod yn 10 mlynedd yn olynol. Gweler tudalen 9 ar gyfer beth rydym yn olygu wrth 'flwyddyn gymhwyso'.

Mewn rhai amgylchiadau, mae amser a dreulwyd yn byw neu'n gweithio y tu allan i'r DU hefyd yn eich helpu i gyrraedd yr isafswm cyfnod cymhwyso ar gyfer y Pensiwn y Wladwriaeth DU – gweler tudalen 40.

Efallai nad ydych ar hyn o bryd yn bodloni'r isafswm cyfnod cymhwyso. Fodd bynnag, efallai y byddwch yn ei fodloni pan fyddwch yn cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth os bydd blynyddoedd cymhwyso pellach yn cael eu hychwanegu at eich cofnod cyfraniadau YG cyn i chi gyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth (gweler yr enghraifft Sarah ar dudalen 35).

## Sut byddwch yn gweithio allan fy swm cychwynnol

Byddwn yn defnyddio y blynyddoedd cymhwyso ar eich cofnod cyfraniadau YG, hyd at a chan gynnwys y flwyddyn dreth 2015/2016, i weithio allan faint o Bensiwn y Wladwriaeth fuasech yn ei gael o dan y rheolau presennol o'r:

- cynllun Pensiwn y Wladwriaeth newydd sy'n dechrau ar 6 Ebrill 2016, sef yn seiliedig ar 1/35ain o £151.25 (y gyfradd lawn o Bensiwn newydd y Wladwriaeth) ar gyfer pob blwyddyn cymhwyso, hyd at isafswm o 35 mlynedd, a
- cynllun Pensiwn y Wladwriaeth bresennol. Mae dwy ran – Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn seiliedig ar Bensiwn 1/30ain o £115.95 (y gyfradd llawn Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth) ar gyfer pob blwyddyn gymhwyso, hyd at uchafswm o 30 mlynedd a Phensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn seiliedig ar enillion.

Yr **uchaf** o'r rhain fydd eich swm cychwynnol. Gweler yr enghreifftiau sy'n dilyn.

Caniateir didynyniad i'r symiau hyn ar gyfer y cyfnodau roeddech wedi eithrio o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016.

Mae eich swm cychwynnol yn swm y byddwch yn symud ymlaen i mewn i'r Cynllun Pensiwn newydd y Wladwriaeth, a hwn yw'r lleiaf y byddwch yn ei gael pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ar yr amod eich bod yn bodloni'r rheol isafswm cyfnod cymhwyso. Ond gweler tudalen 36 os oes gennych orchymyn rhannu pensiwn, neu tudalen 39 os ydych wedi talu cyfraniadau YG ar gyfradd is.

Byddwn yn gweithio allan swm cychwynnol yn seiliedig ar eich cofnod cyfraniadau YG hyd at a chan gynnwys y flwyddyn dreth 2015/2016, hyd yn oed os nid ydych yn cwrdd â'r isafswm cyfnod cymhwyso ar y pwynt hwnnw (gweler enghraifft Sarah ar dudalen 35).

**Enghraifft – mae'r swm o dan y cynllun newydd yn uwch**

Ar 6 Ebrill 2016, mae gan Jim 32 o flynyddoedd cymhwyso ar ei gofnod cyfraniadau YG. Mae wedi bod yn hunangyflogedig am gyfnodau hir o'i fywyd gwaith.

Wrth ddefnyddio rheolau'r cynllun Pensiwn newydd y Wladwriaeth, byddai Jim yn cael £138.29 yr wythnos ((£151.25 x 32/35ain).

Wrth ddefnyddio rheolau'r cynllun Pensiwn y Wladwriaeth presennol, byddai Jim yn cael £129.35 yr wythnos (Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth o £115.95 a £13.40 o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth).

Bydd swm cychwynnol Jim yr **uchaf** o'r ddau swm hwn, sydd yn £138.29 yr wythnos.

Dim ond ar gyfer rhesymau eglurhaol mae cynnwys yr enghreifftiau yn y daflen hon.

## A effeithir ar fy swm cychwynnol oherwydd fy mod wedi bod mewn pensiwn yn y gwaith, neu wedi talu i mewn i bensiwn preifat?

Os ydych neu roeddech mewn cynlllun pensiwn cyflog terfynol neu'n berthnasol i gyflog neu, cyn mis Ebrill 2012 roeddech mewn unrhyw gynllun pensiwn gwaith, rydych yn debygol o fod wedi 'eithrio' o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth. Cafodd rhai cynlluniau pensiwn hapddaliwr a phersonol hefyd eu heithrio.

Os ydych wedi cael eich eithrio o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth ar unrhyw adeg cyn mis Ebrill 2016, byddwn yn gwneud didyniad wrth weithio allan eich swm cychwynnol. Bydd y didyniad yn cael ei wneud wrth weithio allan eich symiau cynllun newydd a phresennol.

Mae hyn oherwydd, yn dibynnu ar y math o gynllun

- buasech wedi talu cyfraniadau YG ar gyfradd is, neu
- defnyddiwyd rhai o'r cyfraniadau YG a daloch i gyfrannu i'ch pensiwn hapddaliwr neu bersonol yn lle'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.

Fodd bynnag, dylai'r pensiwn a gewch o'ch cynllun neu gynlluniau pensiwn preifat am y cyfnodau y cawsoch eich eithrio gynnwys swm sydd, yn y rhan fwyaf o achosion, o leiaf yn gyfartal i'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth y buasech wedi ei gael pe baech heb eithrio. Gallai fod hyd yn oed yn uwch.

**Enghraifft – mae'r swm o dan y rheolau cynllun presennol yn uwch**

Ar 6 Ebrill 2016, roedd gan Yvonne 30 o flynyddoedd cymhwyso ar ei chofnod cyfraniadau YG. Yn ystod ei bywyd gwaith, mae gan Yvonne gyfnodau pan gafodd ei heithrio o Bensiwn ychwangol y Wladwriaeth.

Wrth ddefnyddio'r rheolau cynllun Pensiwn newydd y Wladwriaeth, byddai Yvonne yn cael £97.64 yr wythnos (£129.64 (£151.25 x 30/35ain) llai didyniad o £32).

Wrth ddefnyddio'r rheolau cynllun presennol, byddai Yvonne yn cael £139.95 yr wythnos £115.95 o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a £56 o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth llai didyniad o £32).

Bydd swm cychwynnol Yvonne yr **uchaf** o'r ddau swm hwn, sydd yn £139.95 yr wythnos.

Dim ond ar gyfer rhesymau eglurhaol mae cynnwys yr enghreifftiau yn y daflen hon.

## A fydd y swm a ddangosir yn fy natganiad yn newid os bydd blynyddoedd cymhwyso pellach yn cael eu hychwanegu at fy nghofnod cyfraniadau YG ar gyfer blynyddoedd treth cyn 6 Ebrill 2016?

Mae'r swm o Bensiwn y Wladwriaeth a ddangosir yn eich datganiad, sydd wedi ei weithio allan gan ddefnyddio'r rheolau presennol cynllun Pensiwn y Wladwriaeth, nid y rheolau o Bensiwn newydd y Wladwriaeth, yn seiliedig ar eich cofnod cyfraniadau YG fel y mae ar y dyddiad a ddangosir yn eich datganiad.

Os yw blynyddoedd cymhwyso pellach yn cael eu hychwanegu at eich cofnod cyfraniadau YG ar gyfer blynyddoedd treth cyn 6 Ebrill 2016, mae'r amcangyfrif o'ch Pensiwn y Wladwriaeth a roddir yn eich datganiad yn newid.

**Enghraifft – blynyddoedd cymhwyso pellach wedi eu hychwanegu i gofnod cyfraniadau YG cyn 6 Ebrill 2016**

Derbyniodd Asif ddatganiad yn seiliedig ar ei gofnod cyfraniad YG i fyny a chan gynnwys y flwyddyn dreth 2013/2014. Roedd ganddo 27 mlynedd cymhwyso a rhywfaint o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth. Amcangyfrifwyd ei Bensiwn y Wladwriaeth i fod yn £163.52 yr wythnos.

Pan fydd y Pensiwn newydd y Wladwriaeth yn dechrau ar 6 Ebrill 2016, mae Asif wedi ychwanegu dwy flynedd cymhwyso ychwanegol at ei gofnod cyfraniadau YG, ar gyfer y blynyddoedd treth 2014/2015 a 2015/2016.

O ganlyniad i'r ddwy flynedd cymhwyso ychwanegol gael eu hychwanegu at ei gofnod cyfraniadau YG, mae amcangyfrif Pensiwn y Wladwriaeth Asif wedi cynyddu o £11.33 yr wythnos, ac erbyn hyn mae'n £174.85 yr wythnos.

Bydd hyn yn swm cychwynnol Asif ar gyfer Pensiwn newydd y Wladwriaeth.

Dim ond ar gyfer rhesymau eglurhaol mae cynnwys yr enghreifftiau yn y daflen hon.

Efallai bydd swm eich Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth a ddefnyddiwn i weithio allan beth fydd eich swm cychwynnol ar ôl Ebrill 2016 yn wahanol i'r swm Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth a ddangosir yn eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth rydym wedi rhoi i chi nawr. Mewn rhai amgylchiadau gallai fod yn is. Gallai hyn ddigwydd os

- roeddcch yn aelod o gynllun pensiwn gweithle unrhyw amser rhwng 1978 a 1997, ac mae'r pensiwn rydych yn gael yn gyslltiedig â'ch cyflog. Er enghraifft, cynlluniau Budd-dal Diffiniedig, cyflog terfynol neu gyflog cyfartalog
- rydych eisoes wedi gadael neu'n gadael y cynllun hwn cyn 6 Ebrill 2016, ac
- mae eich cynllun pensiwn yn ailbrisio eich buddion pensiwn cadwedig pob blwyddyn gan ganran sy'n fwy nag enillion cenedlaethol cyfartalog.

Fodd bynnag, ni fyddwch yn colli allan yn gyfan gwbl, gan hyn, gan y bydd gwerth eich buddion cynllun preifat wedi cynyddu os yw hyn yn digwydd. Efallai y gallwch ychwanegu blynyddoedd cyfraniad YG ychwanegol ar ôl 6 Ebrill 2016 i gynyddu eich Pensiwn y Wladwriaeth (gweler tudalen 33).

## Pryd y byddwch yn gallu dweud wrthyf beth fydd fy swm cychwynnol?

Os ydych yn 55 oed neu'n hŷn, gallwn roi datganiad i chi yn awr a fydd yn rhoi amcangyfrif o'ch Pensiwn y Wladwriaeth i chi drwy ddefnyddio'r rheolau newydd. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/state-pensionstatement**

Gallwn ddweud wrthych beth yw eich swm cychwynnol pan fydd eich holl gyfraniadau a chredydau hyd at ac yn cynnwys y flwyddyn dreth 2015/2016 yn cael eu cofnodi ar eich cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Cyn belled â'ch bod yn bodloni'r isafswm cyfnod cymhwyso pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, bydd eich swm cychwynnol y swm lleiaf y gallech ei gael, er y gallai fod yn fwy.

Gweler tudalen 36 sy'n esbonio sut mae swm eich Pensiwn y Wladwriaeth yn wahanol os oes gorchymyn rhannu pensiwn mewn lle pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

## A fydd blynyddoedd cymhwyso wedi eu hychwanegu at fy nghofnod cyfraniadau YG ar gyfer blynyddoedd treth o 6 Ebrill 2016 ymlaen yn gwella fy Mhensiwn y Wladwriaeth

Os yw eich swm cychwynnol ar 6 Ebrill 2016 yn llai na'r gyfradd lawn o Bensiwn newydd y Wladwriaeth gallwch gynyddu trwy ychwanegu blynyddoedd cymhwyso pellach. **Ar gyfer pob blwyddyn gymhwyso ychwanegol byddwch yn cael 1/35ain o'r swm llawn Pensiwn newydd y Wladwriaeth – tua £4.32 yr wythnos.**

Fodd bynnag, nid yw eich swm cychwynol gan gynnwys unrhyw beth rydych yn ei ychwanegu ar ôl 6 Ebrill 2016 i fod yn fwy na'r gyfradd lawn o Bensiwn newydd y Wladwriaeth.

**Enghraifft – mae'r swm cychwynnol yn llai na'r gyfradd lawn o'r Pensiwn newydd y Wladwriaeth**

Mae Sonya yn mynd i gyrraedd ei hoedran Pensiwn y Wladwriaeth ym mis Mawrth 2024. Ei swm cychwynnol ym mis Ebrill 2016 yw £130.25 yr wythnos.

Ar ôl mis Ebrill 2016 mae Sonya yn parhau i weithio a thalu Yswiriant Gwladol. Ar ôl 5 mlynedd (ar 6 Ebrill 2021) mae wedi cyrraedd y Pensiwn y Wladwriaeth lawn. Mae hyn oherwydd ei bod wedi ychwanegu £21.61 yr wythnos i'w swm cychwynnol am y pum mlynedd cymhwyso ychwanegol mae hi wedi ychwanegu i'w chofnod ychwanegol YG (151.25 x 5/35).

Pan fydd yn cyrraedd ei hoedran Pensiwn y Wladwriaeth, bydd Pensiwn y Wladwriaeth Sonya yn £151.25 yr wythnos. Dyma’r uchafswm o Bensiwn y Wladwriaeth y gall Sonya ei gael – ni all gael mwy na’r gyfradd lawn.

Dim ond ar gyfer rhesymau eglurhaol mae cynnwys yr enghreifftiau yn y daflen hon.

Os yw eich **swm cychwynnol ar 6 Ebrill 2016 yr un fath a’r** gyfradd lawn o’r Pensiwn newydd y Wladwriaeth dyma’r swm y byddwch yn ei gael pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth – yn destun i unrhyw orchymyn rhannu pensiwn. Ar wahân i’r cynyddiadau blynyddol arferol, ni fydd yn mynd i fyny hyd yn oed os bydd blynyddoedd cymhwyso pellach yn cael eu hychwanegu i’ch cofnod cyfraniadau YG ar ôl 6 Ebrill 2016.

Os yw eich **swm cychwynnol ar 6 Ebrill 2016 yn fwy na’r** gyfradd lawn o’r Pensiwn newydd y Wladwriaeth, yna yn destun i unrhyw orchymyn rhannu pensiwn, byddwch yn cael Pensiwn y Wladwriaeth llawn. Byddwch yn cael taliad o’r gwahaniaeth rhwng eich swm cychwynnol a’r gyfradd lawn o’r Pensiwn newydd y Wladwriaeth fel taliad wedi’i ddiogelu.

**Enghraifft – mae’r swm cychwynol yn fwy na’r gyfradd lawn o’r Pensiwn newydd y Wladwriaeth**

Mae Adrian yn mynd i gyrraedd ei oedran Pensiwn y Wladwriaeth ym mis Mehefin 2020. Ei swm cychwynnol ym mis Ebrill 2016 yw £172.48 yr wythnos.

Gan fod ei swm cychwynnol yn fwy na’r gyfradd lawn o’r Pensiwn newydd y Wladwriaeth (£151.25 yr wythnos), dyma’r y mwyaf y gall Adrian ei gael pan fydd yn cyrraedd ei oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Ni fydd yn mynd i fyny, hyd yn oed os bydd blynyddoedd cymhwyso pellach yn cael eu hychwanegu at gofnod gyfraniadau YG Adrian cyn iddo gyrraedd ei oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Felly, pan fydd Adrian yn cyrraedd ei oedran Pensiwn y Wladwriaeth bydd yn cael Pensiwn y Wladwriaeth o £151.25 yr wythnos, gyda’r balans o £21.23 yr wythnos yn cael ei dalu fel taliad wedi’i ddiogelu – cyfanswm o £172.48 yr wythnos.

Dim ond ar gyfer rhesymau eglurhaol mae cynnwys yr enghreifftiau yn y daflen hon.

## Beth os oes gennyf lai na 10 mlynedd gymhwyso ym mis Ebrill 2016?

Os oes gennych o leiaf 1 flwyddyn gymhwyso o gyfraniadau YG neu gredydau ar gyfer blynyddoedd treth cyn 6 Ebrill 2016, bydd gennych swm cychwynnol ar 6 Ebrill 2016. Fodd bynnag, ni fyddwch fel arfer yn cael taliad o Bensiwn y Wladwriaeth os nad ydych yn bodloni'r isafswm cyfnod cymhwyso o leiaf 10 mlynedd gymhwyso pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth (gweler tudalen 29).

Efallai y byddwch yn gallu ychwanegu digon o flynyddoedd cymhwyso at eich cofnod cyfraniadau YG i gwrdd â'r isafswm cyfnod cymhwyso pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

**Enghraifft – gyda llai 10 mlynedd gymhwyso ar 6 Ebrill 2016**

Mae Sarah i fod i gyrraedd ei hoedran Pensiwn y Wladwriaeth ym mis Chwefror 2024.

Ar 6 Ebrill 2016 mae Sarah gyda chwe mlynedd gymhwyso ar ei chofnod cyfraniad YG sy'n rhoi swm cychwynnol ar gyfer Pensiwn newydd y Wladwriaeth iddi o £28.56 yr wythnos.

Os nad oes blynyddoedd cymhwyso pellach wedi eu hychwanegu at gofnod cyfraniadau YG Sarah cyn iddi gyrraedd ei hoedran Pensiwn y Wladwriaeth, ni fyddai hi'n bodloni'r isafswm cyfnod cymhwyso ac ni fyddai'n cael Pensiwn y Wladwriaeth.

Fodd bynnag, ar ôl Ebrill 2016 mae Sarah yn gweithio ac yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol, ac mae saith o flynyddoedd cymhwyso pellach yn cael eu hychwanegu at ei chofnod gyfraniadau YG. O ganlyniad mae ganddi 13 o flynyddoedd cymhwyso ar ei chofnod cyfraniadau YG pan fydd yn cyrraedd ei hoedran Pensiwn y Wladwriaeth, ac yn bodloni'r isafswm cyfnod cymhwyso.

Byddai'n cael Pensiwn y Wladwriaeth o £58.81 yr wythnos. Mae hyn yn cynnwys ei swm cychwynnol o £28.56, yn ogystal â £30.26 yr wythnos (£151.25 x 7/35) ar gyfer y saith mlynedd cymhwyso mae hi wedi ychwanegu at ei chofnod cyfraniadau YG ar ôl Ebrill 2016.

Dim ond ar gyfer rhesymau eglurhaol mae cynnwys yr enghreifftiau yn y daflen hon.

## A fydd fy Mhensiwn newydd y Wladwriaeth yn cynyddu pob blwyddyn?

Bydd eich Pensiwn newydd y Wladwriaeth yn cynyddu pob blwyddyn yn unol ag o leiaf y twf mewn cyfartaledd enillion. Os oes gennych ragor o Bensiwn y Wladwriaeth (gweler tudalen 10) neu Daliad Gwarchodedig (gweler tudalen 34) bydd fel arfer yn cynyddu pob blwyddyn yn unol â'r cynnydd mewn prisiau yn y DU.

Efallai na fydd eich Pensiwn y Wladwriaeth, Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth a thaliad wedi'i ddiogelu yn mynd i fyny pob blwyddyn os ydych yn byw y tu allan i'r DU. Gweler tudalen 41 am fwy o wybodaeth ynglŷn â thaliadau pensiwn y DU y tu allan i'r DU.

## Mae fy amcangyfrif yn seiliedig ar y rheolau ar hyn o bryd. Pa mor berthnasol ydyw?

Er fod yr amcangyfrif yn eich datganiad wedi ei weithio allan o dan reolau'r cynllun ar hyn o bryd, mae'n berthnasol o hyd.

Mae'n amcangyfrif diweddar o un o'r symiau (swm yn cynllun ar hyn o bryd) y byddwn yn ddefnyddio i weithio allan eich swm cychwynnol ar gyfer y Pensiwn newydd y Wladwriaeth pan fydd yn dechrau ar 6 Ebrill 2016. Yn y mwyafrif o achosion, cyn belled â bod yr isafswm y cyfnod cymhwyso yn cael ei gyfarfod, bydd yr amcangyfrif cynllun ar hyn o bryd y lleiafswm y bydd rhywun yn gael pan fyddant yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

## Beth sy'n digwydd os oes gennyf orchymyn rhannu pensiwn?

Os ydych wedi ysgaru neu mae eich partneriaeth sifil wedi'i ddiddymu, fel rhan o'ch ardrefniant gall y llysoedd wneud gorchymyn rhannu pensiwn.

Pan fyddwn yn gweithio allan eich swm cychwynnol ar gyfer Pensiwn newydd y Wladwriaeth ni fyddwn yn ystyried gwerth unrhyw orchymyn rhannu pensiwn. Mae eich swm cychwynnol yn cael ei gyfrifo fel pe nad oedd gorchymyn rhannu pensiwn mewn lle.

Bydd gwerth y gorchymyn rhannu pensiwn yn cael ei ychwanegu at neu ei gymryd i ffwrdd o'ch Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddwch yn gwneud cais amdano – gweler enghraifft isod.

Dim ond ar gyfer rhesymau eglurhaol mae cynnwys yr enghreifftiau yn y daflen hon.

**Enghraifft – effaith gorchymyn rhannu pensiwn**

Mae Brian yn mynd i gyrraedd ei oedran Pensiwn y Wladwriaeth ym mis Mehefin 2020. Ei swm cychwynnol ym mis Ebrill 2016 yw £168.50 yr wythnos.

Pan gafodd Brian ei ysgariad yn 2012, gwnaeth y llys orchymyn rhannu pensiwn yn dyfarnu rhan o'i Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth i'w gyn wraig, Sandra. Pan fydd yn cyrraedd ei oedran Pensiwn y Wladwriaeth gwerth hyn yw £15 yr wythnos.

Pan fydd Brian yn cyrraedd ei oedran Pensiwn y Wladwriaeth mae'n cael £153.50 yr wythnos (£168.50 llai £15). Bydd yn cael Pensiwn y Wladwriaeth o £151.25 yr wythnos, gyda'r gweddill o £2.25 yr wythnos yn cael ei dalu fel taliad gwarchodedig.

Wrth ddefnyddio ei chofnod cyfraniadau YG ei hun, mae Pensiwn y Wladwriaeth Sandra yn £125.30 yr wythnos. Bydd yn cael Pensiwn y Wladwriaeth o £140.30 yr wythnos (£125.30 a £15).

## Ymhle y caf wybod mwy ynglŷn â'r Pensiwn newydd y Wladwriaeth?

Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â'r Pensiwn newydd y Wladwriaeth ar gael arlein.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.gov.uk/new-state-pension**

# Pensiwn y Wladwriaeth drwy eich priod neu bartner sifil

Fel arfer bydd y Pensiwn newydd y Wladwriaeth yn seiliedig ar eich cofnod cyfraniadau YG eich hun yn unig. Mae'r adran hon yn esbonio pryd y gallwch:

- etifeddu rhywfaint o Bensiwn y Wladwriaeth os ydych yn weddw
- cael cynnydd os byddwch yn talu cyfraniadau merched priod a chyfradd ostyngol gwraig weddw YG (a elwir hefyd yn "stamp gwraig briod").

## Beth allaf ei etifeddu os ydw i'n weddw?

Efallai y byddwch yn gallu etifeddu rhywfaint o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth os:

- ydych eisoes yn weddw, neu os ydych yn weddw cyn 6 Ebrill 2016, neu
- eich bod yn weddw ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016 ac eich gŵr, eich gwraig neu'ch partner sifil wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn y dyddiad hwnnw.

Mae'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn rhan o gynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar hyn o bryd ac yn cael ei adnabod hefyd fel SERPS neu Ail Bensiwn y Wladwriaeth – gweler tudalen 26.

Efallai y byddwch yn gallu etifeddu hanner Taliad Gwarchodedig eich gŵr, gwraig neu bartner sifil os ydych yn weddw ar neu ar ôl 6 Ebrill ac maent yn:

- cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016, neu
- bu iddynt farw cyn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Bydd ganddynt Daliad Gwarchodedig os yw eu swm cychwynol yn fwy na'r gyfradd lawn o Bensiwn newydd y Wladwriaeth ym mis Ebrill 2016 (gweler enghraifft Adrian ar dudalen 34).

Rhaid i'ch priodas neu bartneriaeth sifil fod wedi dechrau cyn 6 Ebrill, 2016 er mwyn i chi allu etifeddu unrhyw Bensiwn y Wladwriaeth ychwanegol neu Daliad Gwarchodedig.

Bydd eich Pensiwn y Wladwriaeth a etifeddwyd yn cael ei dalu ar ben eich Pensiwn y Wladwriaeth. Fodd bynnag, byddwch yn dal i gael eich Pensiwn y Wladwriaeth wedi'i etifeddu wedi'i dalu, hyd yn oed os nid ydych yn bodloni'r rheol o leiaf 10 mlynedd gymhwyso i gael Pensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar eich cyfraniadau YG eich hun.

Ni fyddwch yn gallu etifeddu unrhyw Bensiwn y Wladwriaeth os ydych yn weddw o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth a'ch bod yn ailbriodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil newydd cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

## Beth y gallaf ei gael os wyf wedi talu cyfraniadau YG cyfradd ostyngedig?

Os byddwch yn dewis i dalu cyfraniadau cyfradd ostyngedig YG gwraig briod, efallai y byddwn yn gallu gweithio allan eich Pensiwn y Wladwriaeth o dan reolau gwahanol os bydd hyn yn rhoi mwy o Bensiwn y Wladwriaeth nag y byddech yn ei gael yn seiliedig dim ond os ydych ar eich cofnod cyfraniadau YG eich hun.

Byddwn yn gallu gwneud hyn os ydych yn dal i gael yr hawl i dalu llai o gyfradd cyfraniadau YG ar ddechrau'r cyfnod o 35 mlynedd sy'n dod i ben ar y 5ed Ebrill cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Os yw hyn yn berthnasol i chi:

- ni fydd angen i chi gael o leiaf 10 mlynedd cymhwyso ar eich pen eich hun i allu cael Pensiwn y Wladwriaeth
- byddwch yn gallu cael yr uchaf o:
  - Pensiwn y Wladwriaeth sydd tua'r un fath â'r Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth ar hyn o bryd i ferch briod, gweddw neu wedi ysgaru yn hawlio ar gyfraniadau YG ei gŵr (yn dibynnu ar eich statws priodasol) ynghyd ag unrhyw Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth rydych wedi adeiladu i fyny eich hun.
  - Pensiwn y Wladwriaeth o dan y rheolau Pensiwn newydd y Wladwriaeth sy'n seiliedig yn arferol ar eich cofnod cyfraniadau YG eich hun.

Rydych wedi derbyn datganiad yn seiliedig ar eich cofnod cyfraniadau YG eich hun. Os credwch y gallech fodloni'r amod ar gyfer y gwahanol rheolau, ac rydych yn 55 oed a throsodd, efallai yr hoffech gael datganiad sy'n dangos faint y gallech ei gael yn seiliedig ar y rheolau hyn. Gallwch gael datganiad drwy ffonio'r rhif a ddangosir ar dudalen 42.

Os ydych yn weddw gallwch hefyd etifeddu Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth neu Daliad Gwarchodedig gan eich diweddar briod, fel yr eglurwyd uchod.

Cewch ragor o wybodaeth yn
**www.gov.uk/state-pension-through-partner**

# Gwella eich Pensiwn y Wladwriaeth trwy dalu cyfraniadau YG gwirfoddol

Efallai y gallwch dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 neu 3 gwirfoddol ar gyfer blynyddoedd blaenorol ble nad oes digon o gyfraniadau neu gredydau ar eich cofnod cyfraniadau YG am flwyddyn i gyfrif fel blwyddyn cymhwysol. Mae cyfraniadau gwirfoddol yn cyfrif tuag at Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a budd-daliadau profedigaeth.

Dylech feddwl yn ofalus ynglŷn a ph'un ai i dalu cyfraniadau YG gwirfoddol yw'r dewis gorau i chi. Os ydych yn gweithio neu'n cael budd-daliadau y wladwriaeth penodol, efallai y gellir ychwanegu blynyddoedd cymhwyso pellach i'ch cofnod cyfraniadau YG cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Cyn i chi benderfynu talu unrhyw gyfranadau YG gwirfoddol, efallai y byddwch yn dymuno disgwyl hyd nes y gallwn ddweud wrthych faint fydd eich swm cychwynol. Byddwn yn gallu gwneud hyn pan fydd eich holl gyfraniadau a chredydau hyd at a chan gynnwys y flwyddyn dreth 2015/2016 yn cael eu cofnodi ar eich cofnod cyfraniadau YG.

Cewch wybod mwy yn **www.gov.uk/voluntary-national-insurance-contributions**

# Adran 5 – Gweithio neu fyw y tu allan i'r DU

**Dylai pawb ddarllen yr adran hon.**

## Yr amser a dreulir yn gweithio y tu allan i'r DU

Os ydych yn gweithio y tu allan i'r DU, efallai y gallwch dalu i mewn i gynllun pensiwn y wladwriaeth y wlad lle rydych yn gweithio. Gallwch wneud hyn mewn gwledydd yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ac mewn rhai gwledydd eraill lle ceir trefniadau arbennig.

Os ydych wedi talu i mewn i gynllun pensiwn gwlad arall, dylech gysylltu â'r adran sy'n gyfrifol am dalu pensiynau'r wladwriaeth yn y wlad honno i wirio pa drefniadau pensiwn fydd yn berthnasol.

## Effaith ar Bensiwn y Wladwriaeth y DU

Yn dibynnu ar ba mor hir y byddwch yn gweithio y tu allan i'r DU, a'r wlad rydych yn gweithio ynddi, efallai y gellir defnyddio unrhyw gyfraniadau rydych wedi eu talu dramor i weithio allan faint o Bensiwn y Wladwriaeth y DU mae gennych hawl iddo. Neu gallech gael dau bensiwn – un gan y DU ac un o'r wlad lle roeddech yn byw ac yn gweithio.

Os cyrhaeddwch oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016, efallai y gallwn ddefnyddio cyfraniadau YG rydych wedi eu gwneud dramor i gyfarfod y isafswm cyfnod cymhwyso ar gyfer y cynllun Pensiwn newydd y Wladwriaeth (gweler tudalen 29).

Nid yw'r symiau a nodir yn eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth yn ystyried unrhyw amser rydych wedi'i dreulio mewn gwlad arall nac unrhyw gynllun pensiwn tramor y gallwch fod wedi cyfrannu ato.

## Taliadau Pensiwn y Wladwriaeth y DU y tu allan i'r DU

Fel arfer, gallwch gael eich Pensiwn y Wladwriaeth wedi'i dalu ble bynnag rydych yn byw. Fodd bynnag, os ydych yn byw y tu allan i'r DU ac yn cael Pensiwn y Wladwriaeth y DU, ni fyddwch yn cael cynnydd blynyddol oni bai eich bod yn byw:

- mewn gwlad sy'n perthyn i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd
- yn y Swistir, neu
- mewn gwlad sydd â threfniant â'r DU sy'n caniatáu'r cynnydd hwn.

Os ydych yn byw mewn gwlad lle na chaiff eich Pensiwn y Wladwriaeth y DU ei gynyddu, efallai y caiff eich Pensiwn y Wladwriaeth y DU ei gynyddu ar gyfer y cyfnod pan fyddwch yn ymweld â'r DU neu'n ymweld â gwledydd penodol lle caiff y cynnydd blynyddol ei dalu. Pan fyddwch yn dychwelyd i'r wlad lle rydych yn byw'n barhaol, caiff eich Pensiwn y Wladwriaeth y DU ei dalu ar y gyfradd arferol.

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwledydd lle telir y cynnydd, a sut y telir Pensiynau'r Wladwriaeth y DU i bobl sy'n byw y tu allan i'r DU ar-lein.

**www.gov.uk/state-pension-if-you-retire-abroad**

# Adran 6 – Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

**Dylai pawb ddarllen yr adran hon.**

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth,neu bensiynau yn gyffredinol ar-lein, neu drwy ffonio neu ysgrifennu atom gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddangosir isod.

**www.gov.uk/state-pension**
Ffôn: **0345 300 0168**.
Ffôn testun: **0345 300 0169**
8am i 6pm, dydd Llun i ddydd Gwener.

O'r tu allan i'r DU
Ffôn: **+44 191 218 3600**
Ffôn testun: **+44 191 218 2051**
8am i 6pm, dydd Llun i ddydd Gwener.

Ysgrifennwch atom yn:
The Pension Service 9
Mail Handling Site A
Wolverhampton
WV98 1LU

## Costau galwadau

Nid yw galwadau i rifau **0345** yn costio dim mwy na galwad ddaeryddol safonol, ac yn cyfri tuag at unrhyw funudau am ddim neu gynhwysol yn eich contract llinell daer neu ffôn symudol.

Gallwch ofyn i'n cysylltydd eich ffonio nôl – rhowch eich rhif ffôn iddo.

**Ffonau testun – os oes gennych anawsterau gyda'ch lleferydd neu'ch clyw**

Mae ein rhifau ffôn testun ar gyfer pobl na allant siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, gallech holi a oes gan eich llyfrgell neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth leol un. Ni all ffonau testun dderbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

## Gwybodaeth bwysig am y daflen hon

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu'r holl amgylchiadau a all godi. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau bod y daflen yn gywir ym mis Rhagfyr 2015. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith.

Caiff rhagor o wybodaeth gan DWP am fudd-daliadau a phensiynau ei chyhoeddi ar-lein.

I gael gwybodaeth am fudd-daliadau, ewch i
**www.gov.uk/browse/benefits**

I gael gwybodaeth am bensiynau, ewch i
**wwww.gov.uk/state-pension**
**www.gov.uk/new-state-pension**

ISBN 978-1-78425-651-7
CPS5W_112015_012_001